**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**
**DYDD MAWRTH, 22 MAWRTH 2016**
**yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

**Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams – Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Is-gadeirydd**

Y Cyng. Rob Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Y Cyng. Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Y Cyng. Mark James (Cymdeithas y Bad Achub), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Môr Abermaw a Cheredigion), Mrs Wendy Ponsford (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw),Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Arthur Jones | - | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr Abermaw |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Louise Hughes, Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi), Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi), Y Cyng. R. A. Williams (BRIG), Mr Llyr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned.

1. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

(i) Y Cyng. Gethin Glyn Williams oherwydd ei fod yn aelod o'r Clwb Hwylio
(ii) Y Cyng. Julian Kirkham oherwydd ei fod yn perthyn i un o weithredwyr yr ysgraff

2. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 15 Hydref 2015.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

2.1 **Materion yn Codi o'r cofnodion:**

**(a) Gaeafau Cychod**

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â gaeafu cychod ar ran o'r maes parcio, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn dilyn trafodaeth gyda Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch bod yr egwyddor yn dderbyniol ond bod angen trafodaethau ar sut i weinyddu'r trefniadau, cyfrifoldeb am y cychod, a.y.b. Bu trafodaethau ynglŷn â chost ar ffurf "bond" rhwng £300-£500 fel blaendal ar gyfer unrhyw lanhau byddai angen ar ôl symud y cychod. Fel ffordd ymlaen, awgrymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i Aelodau ofyn i'w

cymdeithasau os oes diddordeb yn y ddarpariaeth uchod ac iddynt gofnodi eu diddordeb gyda'r Harbwr Feistr ac yna gellir ymrwymo i'r cynllun erbyn gaeaf nesaf.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r cymdeithasau gysylltu â'r Harbwr Feistr os oes unrhyw ddiddordeb gan unigolion i aeafu cychod ar ran o'r maes parcio, fel bo modd cwblhau'r trefniadau angenrheidiol ymhellach.**

**(b) Mynediad i Gadeiriau Olwyn ar y Promenâd**

Yn deillio o'r drafodaeth ynglŷn â chyflwyno cais am grant i Gronfa'r Loteri ar gyfer darparu mwy o fannau mynediad i gadeiriau olwyn ar y promenad, rhoddwyd diweddariad gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams nad oedd Grŵp Mynediad Meirionnydd wedi cyflwyno ceisiadau eu hunain ddim ond fel rhan o fudiadau eraill. Yn ychwanegol, ar hyn o bryd, roedd y Grŵp Mynediad yn brin o Ysgrifennydd a Thrysorydd. Teimlwyd hefyd pe byddai'r Cyngor Tref yn sefydlu Grŵp Mynediad Abermaw, byddai hyn yn darnio'r grŵp ehangach sef Grŵp Mynediad Meirionnydd. I ychwanegu at y broblem roedd y Cyngor wedi cael gwared a swydd Swyddog Anabledd. Deallir mai oddeutu 4 man o'r "Black Patch" i Westy'r Arbour sydd yn anghyraeddadwy i gadair olwyn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Lansio o Bwynt Penrhyn**

Mewn ymateb i bryder ynglŷn â goruchwyliaeth lansio o Bwynt Penrhyn, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd gan y Gwasanaeth y capasiti i anfon staff i Bwynt Penrhyn ac mewn cydweithrediad a'r gymuned leol bod arwyddion wedi eu gosod yn yr ardal. O safbwynt potensial i gael gwirfoddolwyr i gynorthwyo, ni ragwelwyd unrhyw broblem pe byddai 3 / 4 unigolyn yn fodlon cynorthwyo o dan adain yr Harbwr Feistr, yn ddibynnol ar gymwysterau o safbwynt telerau yswiriant. Byddai'n fuddiol hefyd pe byddai gweithredwyr yr ysgraff yn gallu hysbysu'r Harbwr Feistr os ydynt yn gweld cychod yn lansio heb gofrestru.

Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod trefn ffurfiol i'w ddilyn sef bod yn ofynnol i unigolion gwblhau ffurflenni PG1 (manylion yr unigolion) a PG2 (asesiad risg).

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Aelodau wneud ymholiadau gyda'u cymdeithasau er canfod gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r Harbwr Feistr gyda lansiadau heb eu cofrestru o Bwynt Penrhyn ac iddynt gysylltu gyda'r Harbwr Feistr, os oes unrhyw ddiddordeb.**

3. <u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol at y canlynol:-

**(A) Cod Diogelwch Harbyrau**

Atgoffwyd Aelodau nad oedd y Cod Diogelwch yn statudol a byddir yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau sydd gan Aelodau ar faterion iechyd a diogelwch.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(B) Mordwyo ac Angorfeydd**

Adroddwyd:

(i) Bod y Gwasanaeth wedi buddsoddi yn sylweddol yn y cymhorthion a oedd yn cynnwys goleuadau, cadwyni, a.y.b. ac o ganlyniad bod pob un ar ei safle priodol ar hyn o bryd.

(ii) Bod angen gosod goleuadau ar rhai cymhorthyddion ond nid oedd y Gwasanaeth yn orbryderus gan fod gwyliau'r Pasg yn gynnar eleni ac na fyddai efallai lawer o gychod ar y dŵr. Fodd bynnag sicrhawyd y byddai'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn eu gosod cyn gynted ag y bo modd.

(iii) Y byddir yn ystyried buddsoddiad flwyddyn nesaf i osod bwi starbord ger y morglawdd fel bo modd i gychod ymwelwyr fordwyo i'r Harbwr yn rhwydd

(iv) Derbyniwyd archwiliad gan Ty'r Drindod ynghyd ag awdit trylwyr ac o ganlyniad pwysleisiwyd i'r trefniadau gweinyddol fod i fyny i safon

(v) Cytunwyd i beidio gwneud buddsoddiad yn y bwiau traeth heblaw'r porth wrth ymyl pont droed y rheilffordd

(vi) Bod y Gwasanaeth wedi cysylltu hefo perchnogion angorfeydd ac allan o'r nifer o gwsmeriaid presennol derbyniwyd 60 o geisiadau hyd yma sydd yn lleihad o'i gymharu a'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nodwyd bod y trend morwrol yn lleihau ymhob harbwr

(vii) Pwysleisiwyd na fyddir yn caniatáu cychod angori yn yr harbwr oni bai bod y gwaith gweinyddol ysgrifenedig yn gyflawn a chywir sy'n cynnwys dogfennaeth yswiriant, tystysgrif angorfa, a.y.b.

(viii) Fe fyddir yn gofyn i'r contractwr lleol dynnu'r angorfeydd sydd ddim mewn defnydd ac ni fydd unigolion yn cael hawlio lleoliadau penodol

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(C) Materion Harbwr**

Adroddwyd:

(i) Bod oddeutu £8,000 wedi ei fuddsoddi i atgyweirio'r pontŵn llynedd ac erbyn hyn wedi bod yn rhan o gyfrifoldeb y Gwasanaeth Harbwr ac ni wyddys pa mor hir y gellir ei gynnal a'i gadw o ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni a chyn lleied o incwm yn dod ohono. Pwysleiswyd mai at ddefnydd ymwelwyr yn unig ydoedd bwriad y pontwn ac y byddai'r Harbwr Feistr yn monitro'r defnydd. Nodwyd ymhellach y byddir yn trefnu i roi'r bysedd yn ol ar y pontwn yn fuan.

Mewn ymateb i ymholiadau gan Aelodau unigol, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:

- Bod yn rhaid cael rheolaeth ar gychod lleol sy'n angori ar y pontwn
- O safbwynt cwch yr Harbwr wedi ei angori ar y pontwn, bod llawer o waith atgyweirio ar y cwch ac fe fyddai'n rhaid ystyried ffyrdd amgen o gyrraedd at y cwch megis trefniadau fel sy'n bodoli yn Aberdyfi sydd wedi angori gyda chwch gweini ar gael i fynd ati
- Nid cyfrifoldeb yr Harbwr Feistr ydoedd ymateb i argyfwng yn yr Harbwr ond yn hytrach i'r Gwasanaethau Brys a'r Bad Achub ond wrth gwrs fe fyddai'r Gwasanaeth Morwrol yno i gynorthwyo pe byddai angen

(ii) Bod oddeutu 47 ciwb medr o goncrid wedi ei ddefnyddio i atgyweirio'r gerddi, 1,000 litr o resin ynghyd a 16 ciwb medr i wal y cei ac nid oedd hyn yn ddigonol i lenwi'r gwagleoedd.

(iii) Hyderir y byddai'r ysgraff yn gweithredu erbyn y Pasg ond apeliwyd ar y gweithredwyr i gyflwyno ceisiadau am drwydded mewn da bryd gan nad oedd diwrnod neu ddau o rybudd yn ddigonol i'r Gwasanaeth Morwrol fedru eu prosesu.

Nododd Aelod bod yn rhaid bod yn llym o safbwynt derbyn ceisiadau mewn pryd i'w prosesu ac y dylid nodi na fydd unrhyw drwydded yn cael ei brosesu oni bai bod y ddogfennaeth briodol wedi eu cyflwyno erbyn y dyddiad dynodedig.

(iv) Bod trefniadau mewn lle ar gyfer y consesiynau traethau er mwyn cael gwell rheolaeth ar weithgareddau glan y môr. Hysbysebir y consesiynau yn y papurau lleol gan wahodd unrhyw fusnes i gyflwyno cais. Byddir wedyn yn asesu'r ceisiadau er mwyn sicrhau bod pob consesiwn yn cydymffurfio a'r gofynion priodol. Derbyniwyd un cais cyflawn ar gyfer gweithgareddau trampolîn / siglenni / mulod.

(v) O safbwynt symud tywod, nodwyd nad oedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn symud tywod eleni ond fe fyddir yn ceisio cadw'r llwybrau yn glir dros fisoedd yr haf. Ychwanegwyd bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni yn y gorffennol ond nad oedd cyllideb ar gael i logi peiriannau i'w symud ond byddai'r Harbwr Feistr yn monitro'r sefyllfa.

Adroddodd y Cadeirydd bod oddeutu 15-20 tunnell o dywod wedi ei symud yn y gorffennol a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r Cyngor Tref, Cynllun Rheoli Traethlinau, ac eraill ar gyfer datrys y broblem yn y tymor hir ac fe fyddir yn rhoi ystyriaeth i'r twyni, "marram grass", gweithgareddau, a.y.b.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(CH) Cyllidebau Harbyrau**

Cyflwynwyd taflen yn crynhoi'r cyllidebau i'r Aelodau a thywyswyd hwy drwy'r penawdau gan dynnu sylw bod targed incwm yr Harbwr yn £45,100 gyda £43,637.69 eisoes wedi ei wario a diffyg o £9,296.91 ar ddiwedd Chwefror 2016.

Cyfeiriwyd at y ffioedd a thaliadau a fydd yn codi 1% ar gyfer 2016-17. Tynnwyd sylw bod ffi trwydded Angorfeydd Trwyn y Gwaith wedi lleihau i gyfiawnhau nad oedd darpariaeth mewn rhannau penodol o'r môrgainc.

Tynnwyd sylw bod cyfanswm targed incwm yr Harbyrau yn oddeutu £2m gyda chwyddiant ar incwm yn 0.70%.

Pwysleiswyd bod blwyddyn heriol yn wynebu'r Gwasanaeth o safbwynt cyllidebau / toriadau ac mai dim ond cyfrifoldeb dros y traethau hynny sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn derbyn gwobr Baner Las fyddai'n syrthio ar y Gwasanaeth Harbwr.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(D) Staff Harbwr**

Adroddwyd:

- bod swydd Cymhorthydd Harbwr wedi ei hysbysebu gyda chyfweliadau i'w cynnal yn fuan.
- Y byddai'r Harbwr Feistr a'r Uwch Swyddog Harbyrau ar ddyletswydd dros wyliau'r Pasg
- Hyderir y byddir yn penodi 4 Swyddog Traeth ar gyfer y tymor
- Apeliwyd ar Aelodau i gysylltu gyda'r Harbwr Feistr, os oes unrhyw waith a ragwelir i'w gwblhau neu os oes ganddynt bryder ynglŷn ag unrhyw fater

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(E) Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru parthed ymgynghoriad ar ardaloedd cadwraeth arbennig arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr Harbwr ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig arfaethedig newydd ac estynedig ar gyfer adar y môr.

Nodwyd, mewn ymateb i ymholiad, nad oedd y Gwasanaeth yn cyflwyno ymateb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (F) Gwasanaeth Cofio - Cwch Fferi'r "Prince of Wales"

Deallwyd bod bwriad i gynnal Gwasanaeth Cofio'r trychineb uchod ar 22 Mehefin 1966 gyda Chyngor Tref Dolgellau yn arwain. Bu i'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn gwrdd gyda Chyngor Tref Dolgellau. Teimlwyd y dylai'r plac coffa gael ei osod ar dir y Parc Cenedlaethol. Nodwyd pryder ynglŷn â'r oediad mewn gwneud cysylltiadau.

Yn ogystal teimlwyd y dylai dau unigolyn sef Mr Ron Davies o Bontddu ac Mr Williams o Brithdir a oedd yn gweithio i'r Cyngor ar y pryd dderbyn cydnabyddiaeth am eu dewrder mewn achub bywyd bachgen bach 7 mlwydd oed o'r trychineb.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 4. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

### (a) Marciau Mordwyo

Adroddwyd bod yr uchod wedi ei drafod fel rhan o adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

### (b) I ystyried cael arwyddion i rybuddio'r cyhoedd o'r newid yn nyfnder y Sianel ger y Clwb Hwylio

Cyfeiriwyd at y ddau lun oedd ynghlwm i'r rhaglen yn dangos cwympiad o 5-6 troedfedd yn y sianel ac fe nodwyd pryder ynglŷn â diogelwch y cyhoedd o ganlyniad i hyn.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Harbwr Feistr osod arwyddion "Glannau Serth" (Steep Banks) yn ogystal â hysbysebu morwyr o fannau diogel i lansio cychod.**

### (c) Cais i ddosbarthu cofnodion ynghynt er mwyn i gynrychiolwyr fedru briffio'r grwpiau maent yn cynrychioli

Adroddodd y Swyddog Cefnogi Aelodau y ceisir gosod y cofnodion ar wefan y Cyngor o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y cyfarfod ond bod hyn yn ddibynnol ar lwyth gwaith. Yn y cyfamser roedd wedi anfon linc o'r safle lle gosodir y rhaglenni/cofnodion i Cyng. Rob Triggs fel bo modd iddo anfon y linc ymlaen i'r unigolion perthnasol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (ch) Polyn peryglus yng ngwaelod y llithrfa yn Harbwr Aberamffra

Gwnaed cais gan gynrychiolydd y Clwb Hwylio i dynnu'r polyn peryglus yn Harbwr Aberamffra.

Deallir mai gweddillion hen long ydoedd ac y byddai'n ofynnol i gael 4 aelod o staff i'w dorri. Roedd gwahaniaeth barn ymysg yr Aelodau o'i dynnu ai peidio gan nad oedd yn creu perygl o safbwynt mordwyo ond fel cyfaddawd gellid gosod bwi ar y safle.

Yn dilyn pleidlais ar y mater:

**Penderfynwyd: I beidio tynnu'r polyn yn Harbwr Aberamffra.**

**(d) Tywod – beth ellir ei wneud?**

Adroddwyd gan gynrychiolydd y Clwb Hwylio bod tywod sylweddol i fyny ochr gogleddol o'r compownd ac ni welwyd cymaint â hyn yno o'r blaen ac y byddai'n creu trafferthion i gael y cychod allan.

Eglurodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid bod yn rhagweithiol drwy gysylltu â Mr Colin Jones, Rheolwr Parcio a Diogelwch Ffyrdd sydd yn gyfrifol am y maes parcio. Fodd bynnag hyderir y gellir datrys y broblem yn yr hir dymor.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**5. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

**Penderfynwyd: Nodi y cynhelir nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol ar ddydd Mawrth, 8 Tachwedd 2016.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 12.10 p.m.

**CADEIRYDD.**